Sir Benfro PCF Fforwm Arfordir Pembrokeshire Coastal Forum

**Y Cynllun Ymgysylltu Ynni'r Môr**
Grymuso Cymunedau ar gyfer Dyfodol Cynaliadwy

# Canllaw Defnyddwyr Ymgysylltu Ynni Adnewyddadwy Morol

## Twristiaeth

Mae'r Canllaw hwn yn cynnwys gwybodaeth ar sut i hysbysu ac addysgu'r gymuned am ynni adnewyddadwy morol yn Sir Benfro.

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Pembrokeshire Nature Partnership
Partneriaeth Natur Sir Benfro

Mewn partneriaeth â Phartneriaeth Natur Sir Benfro
Pembrokeshire Nature Partnership

WCVA CGGC

Mae'r prosiect hwn yn cael ei ariannu gan Gynllun Capasiti Morol a Arfordirol Lleoedd Lleol i Natur Llywodraeth Cymru, a weinyddir gan WCVA

# Cyflwyniad

Mae diwydiant twristiaeth Sir Benfro yn gonglfaen i'r economi leol, gan ddenu ymwelwyr gyda'i harfordir syfrdanol. Yn 2019, croesawodd y sir tua 4.2 miliwn o ymwelwyr, gan gynhyrchu amcangyfrif o £585 miliwn i'r economi leol. Gall busnesau twristiaeth chwarae rhan bwysig, gan addysgu ymwelwyr am rôl ynni adnewyddadwy morol yn Sir Benfro. At hynny, gall synergedd rhwng twristiaeth ac ynni adnewyddadwy morol arallgyfeirio'r economi leol, gan sicrhau cymuned lewyrchus a chydnerth.

Mae diwydiant twristiaeth Sir Benfro wedi'i adeiladu ar ei asedau naturiol a hanesyddol. Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, a sefydlwyd ym 1952, yw'r unig barc cenedlaethol arfordirol yn y DU ac mae'n ymestyn dros 620 cilometr sgwâr. Mae ei glogwyni syfrdanol, traethau tywodlyd, a bywyd gwyllt amrywiol yn denu selogion byd natur o bob cwr o'r byd. Mae safleoedd hanesyddol fel Castell Penfro ac Eglwys Gadeiriol Tyddewi yn cynnig profiadau gwych. Mae pentrefi darluniadol fel Dinbych-y-pysgod a Solfach yn ychwanegu apêl y rhanbarth.

Gan fod busnesau twristiaeth yn dibynnu ar harddwch naturiol y rhanbarth, mae ganddynt ddiddordeb personol mewn gwarchod amgylchedd Sir Benfro. Mae ynni adnewyddadwy morol yn cynnig ffordd o leihau ôl troed carbon a diogelu ecosystemau arfordirol. Mae potensial hefyd ar gyfer cyfleoedd gydol y flwyddyn i ddarparu llety a gwasanaethau i fusnesau ynni adnewyddadwy morol.

Mae busnesau twristiaeth mewn sefyllfa unigryw i addysgu ac ymgysylltu ag ymwelwyr a phobl leol am ynni adnewyddadwy morol, gan feithrin cefnogaeth a chyfranogiad cymunedol ehangach.

# Cwestiynau i'w hystyried

- A fydd cyfleoedd i arallgyfeirio i fynd i'r afael â natur dymhorol?
- A fydd effeithiau ar recriwtio a chadw staff?
- Beth yw'r effeithiau posibl ar brofiad ymwelwyr o amgylchedd naturiol a thirwedd Sir Benfro?
- Beth yw pryderon twristiaeth am effaith ynni adnewyddadwy morol ar natur a'r amgylchedd?

# Siarad â Chredoau Gwahanol

Mae gan bobl farn a phryderon amrywiol. Efallai na fydd yr hyn a allai apelio at un person yn apelio at rywun arall. Fodd bynnag, mae rhai negeseuon craidd sy'n apelio at bron pawb.

- Ffocws ar yr amgylchedd: Amlygwch sut mae ynni adnewyddadwy morol yn helpu i gadw'r amgylchedd yn lân a'i ddiogelu i ymwelwyr.
- Sôn am fuddsoddiad lleol: Nodwch sut y gallai ynni adnewyddadwy morol ddod â buddsoddiad lleol i'r ardal, gan olygu gwell seilwaith a gwasanaethau i dwristiaid a busnesau.
- Osgowch negeseuon creu swyddi: Nid yw cyfleoedd swyddi yn brif flaenoriaeth i'r gymuned hon, felly mae'n well gadael hynny allan o'r sgwrs.

# Manteision posibl ynni adnewyddadwy morol

- Cyfleoedd Newydd i Fusnesau Twristiaeth: Yn creu swyddi a hyfforddiant i bobl leol, a gall busnesau twristiaeth gynnig llety a gwasanaethau eraill i weithwyr ar y môr.
- Denu Twristiaid Newydd: Denu "twristiaid ynni'r môr" sydd â diddordeb mewn gweld datblygiadau ynni adnewyddadwy yn agos.
- Diogelu Ein Treftadaeth: Yn lleihau'r defnydd o danwydd ffosil, gan helpu i warchod harddwch naturiol Sir Benfro tra'n cefnogi twf economaidd.
- Parhau â'n Traddodiad Ynni'r Môr: Yn adeiladu ar hanes ynni'r môr Sir Benfro, gan ei gwneud yn ganolbwynt ar gyfer arloesi ac yn gyrchfan addysgol i ymwelwyr.
- Dyfodol Cynaliadwy i Ymwelwyr: Yn sicrhau bod Sir Benfro'n parhau i fod yn gyrchfan ddilychwin heb ei ddifetha trwy ddefnydd cyfrifol o adnoddau naturiol.

## Pryderon Posibl

- Effaith Weledol: gall dyfeisiau ynni'r môr newid y dirwedd, gan amharu o bosibl ar harddwch naturiol yr ardal.
- Tarfu ar Gynefinoedd: Gall gosod seilwaith darfu ar gynefinoedd anifeiliaid y môr. Gall ymchwil ac arloesi helpu i atal hyn.
- Dadleoli Swyddi: Gallai swyddi newydd ym maes ynni adnewyddadwy arwain at broblemau recriwtio mewn sectorau fel twristiaeth.
- Canfyddiad a Derbyniad Cyhoeddus: Efallai y bydd rhai twristiaid yn cysylltu prosiectau ynni adnewyddadwy â difrod amgylcheddol neu ddiwydiannu, gan effeithio ar eu dymuniad i ymweld â'r ardal. Fodd bynnag, gall straeon a phrosiectau cadarnhaol helpu i atal hyn.

# Llysgenhadon

- Mae gan Croeso Cymru a Croeso i Sir Benfro gyrhaeddiad a dylanwad helaeth, gan hyrwyddo'r rhanbarth a'i fentrau'n eang.
- Gall harbwrs a marinas lleol arddangos prosiectau ynni adnewyddadwy morol yn uniongyrchol i ymwelwyr. Gallant drefnu digwyddiadau sy'n addysgu twristiaid am ynni adnewyddadwy morol, ysgogi diddordeb a gwerthu Sir Benfro fel lle i ymweld ag ef a gweithio.
- Gall darparwyr llety arddangos deunyddiau addysgol mewn eiddo a chynnal digwyddiadau llawn gwybodaeth.
- Gall darparwyr gweithgareddau lleol gynnwys gwybodaeth yn eu teithiau, gan gynnig elfen addysgol.
- Gall Atyniadau Lleol ymgorffori arddangosfeydd addysgol a sgyrsiau am ynni adnewyddadwy morol ym mhrofiadau eu hymwelwyr.
- • Gall “dylanwadwyr” cyfryngau cymdeithasol yn Sir Benfro ddarlledu gwybodaeth i gynulleidfa eang sydd eisoes â diddordeb ym mywyd Sir Benfro.

Nid yw’r rhestr hon yn gyflawn a gallai fod llawer o bobl ddylanwadol eraill yn y gymuned dwristiaeth hefyd!

# Gweithgareddau Ymgysylltu

*Mae'r tabl isod yn cynnwys gwahanol ddigwyddiadau a gweithgareddau i ymgysylltu Twristiaeth ag ynni adnewyddadwy morol.*

| Digwyddiad | Gweithgaredd |
|---|---|
| Digwyddiadau Harbwr a Marina | Mynychu digwyddiadau a phrosiectau arddangos, hyrwyddo ymwybyddiaeth o weithgaredd oddi ar arfordir Sir Benfro |
| Partneriaethau Gwesty a Gwely a Brecwast | Darparu gwybodaeth yn y llety ac ardaloedd cyffredin i hysbysu twristiaid yn uniongyrchol am ddatblygiadau. |
| Gwyliau a Digwyddiadau Lleol | Bythau gwybodaeth ac arddangosfeydd rhyngweithiol i feithrin ymwybyddiaeth gymunedol |
| Canolfannau Croeso | Arddangosfeydd gwybodaeth a thaflenni i addysgu ymwelwyr. |
| Gwibdeithiau Awyr Agored | Addysgu ymwelwyr ar ddatblygiadau'r presennol a'r dyfodol o amgylch Sir Benfro |

# Sianeli Cyfathrebu

*Mae'r tabl isod yn cynnwys gwahanol ddigwyddiadau a gweithgareddau i ymgysylltu Twristiaeth ag ynni adnewyddadwy morol.*

| Sianel | Disgrifiad |
|---|---|
| Gwefannau busnes, blogiau a chylchlythyrau | Diweddariadau ar brosiectau ynni adnewyddadwy morol a chynnydd |
| Siopau Atyniadau Lleol, teithiau a Chanolfannau Croeso | Dosbarthu gwybodaeth gyffredinol a phrosiectau yn Sir Benfro mewn canolfannau Gwybodaeth i Dwristiaid ac atyniadau |
| Canolfannau Ymwelwyr, Arddangosfeydd Llety | Darparu gwybodaeth ac argraffu deunyddiau mewn mannau poblogaidd i dwristiaid. |
| Allfeydd Newyddion Lleol | Erthyglau, ysgrifau nodwedd a segmentau newyddion am ddatblygiadau cyfredol ac yn y dyfodol. |
| Facebook, Instagram, Twitter, TikTok | Rhannu Diweddariadau, storïau llwyddiant a chynnwys addysgol. |

# Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth neu i gysylltu â ni, e-bostiwch
Gydlynydd Prosiect y Cynllun Ymgysylltu Ynni'r Môr
holly.skyrme@pembrokeshirecoastalforum.org.uk

ewch i'n tudalen we yn
www.pembrokeshirecoastalforum.org.uk/meep